

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 30 Ionawr 2017 yn Ystafell Glaslyn, Plas y Brenin, Capel Curig

Presenno!: Sian Shakespear (SS) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Gwyn (GW), Myfyr (MT), Elen (EH), Dwynwen (DP), Raymond (R?)

Ymddiheuriadau: Gareth, Mark, Dewi, Iolo (ap Gwynn)

1.	<u>CROESO</u> Estynodd y Cadeirydd groeso cynnes i DP a RG i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor	
2.	<u>COFNODION</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 20fed o Fedi, 2016 fel rhai cywir. Yn codi Eitem 8: Y GWASANAETH BYSUS SHERPA. Cyflwynwyd ymateb Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd i sylwadu'r Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf am y gwasaneth bws Sherpa Cytunwyd nad oedd diben mynd ymlaen ymhellach a hyn am y tro a gofyn i aelodau'r Pwyllgor gadw llygaid ar y gwasaneth dros yr haf a gwneuyd nodyn o un rhyw faterion sy'n codi fel y gellid ystyried y mater eto yn y cyfarfod ym mis Medi Eitem 9: MOEL SIABOD Cyflwynwyd a derbyniwyd ymateb Mair Huws, Pennaeth Gwasanaeth Wardeinio a Mynediad, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i sylwadau'r Pwyllgor am gyflwr y llwybrau i fyny Moel Siabod.	
3.	<u>COPAON CYMRU</u> A. AIL-ARGRAFFIAD Adroddodd EO ei fod wedi cael gwybod gan Wasg Carreg Gwalch fod gwerthiant o'r argraffiad cyntaf o 1000 o gopiau o'r llyfr wedi bod yn llwyddiannus ac mai ond ychydig o gopiau a oedd ar ôl bellach. Yn sgil hynny roeddynt wedi codi y posibilrwydd o gael ail argraffiad cyn gynted a phosib er mwyn adeiladau ar lwyddiant gwerthiant y llyfr. Gan fod y Cyngor Llyfrau hefyd wedi datgan eu parodrwydd i gynorthwyo gyda ail argraffiad drwy roddi grant tuag at y gost roedd y Wasg wedi datgan eu parodrwydd i ysgwyddo holl gost yr ail argraffiad pe byddai'r Clwb yn cytuno i hepgor derbyn incwm freindal o werthiant yr ail argraffiad. Roedd y Wasg yn awyddus i gael ail argraffiad cyn gnyted a phosib a chredai EO bod werth ystyried y cynnig yma o ddifri gan nad oedd yna unrhyw sicrwydd pendnant y byddai gwerthiant yr ail argraffiad mor gryf a'r argraffiad cyntaf, roedd yna cryn risg yn y fenter felly. Fodd bynnag byddai'n ddatblygiad positif i gael mwy o gopiau o'r llyfr ar gael a hynny yn digwydd heb unrhyw gyfraniad pellach gan y Clwb tuag at y fenter. Roedd y Pwyllgor yn unfrydol yn ei falcheder bod y llyfr wedi bod mor llwyddiannus ac yn awyddus i weld ychwaneg o gopiau yn cael eu argraffu. Cytunwyd y byddai'n bur anhebyg y byddai'r ail argraffiad o 1000 o gopiau yn gwerhu cyn gystal ac felly roedd yn cryn risg yn mynd i fod yn y fenter. Roedd y Pwyllgor yn gytun a'r Wasg y byddai yn dda o beth i symud ymlaen hefo hyn ar fyrder er mwyn cadw y momentwm oedd ynghlwm a'r fenter ac ceisio gwneud hynny fel nad oedd angen unrhyw gyfraniad ariannol pellach o goffrau'r Clwb tuag at y gost. <u>Cytunwyd</u> 1. Gofyn i EO holi y wasg am fwy o wybodaeth am yr ochr ariannol o ail argraffu'r llyfr a phasio y wybodaeth ymlaen i aelodau'r Pwyllgor trwy e-bost	

2. Os bydd ddim byd yn codi o'r wybodaeth a dderbynnir gan y Wasg, dylid symud ymlaen i ail-argaraffu'r llyfr ac byddai'r Clwb yn hebgor derbyn unrhyw freindal o werthiant yr ail-argaraffiad.

B. CYFIEITHU

Adroddwyd bod y Wasg wedi derbyn ymholiadau ynglyn a chael cyfieithiad posib o'r llyfr

Cytunwyd gan nad oedd unrhyw gais/cynnig pendant wedi ei dderbyn i drefnu cyfieithiad y byddai yn gyn-amserol i ystyried y mater.

C. GŴYL DDEWI ARALL

Adroddodd EH bod yna gais wedi ei dderbyn gan drefnwyr Gŵyl Ddewi Arall a gynhelir ar y 4ydd o Fawrth yng Nghaernarfon i gael sesiwn ar Copaon Cymru ynddi. Roedd wedi gofyn i nifer o gyfranwyr i gymryd rhan ac wedi derbyn ymateb positif.

Cytunwyd mai'r ffordd fwyaf ddelfrydol i gynnal y sesiwn yma fyddai cael rhywun i holi y cyfranwyr am eu gwaith ac y byddai DP yn gofyn os y byddai Gerallt Pennant yn fodlon gwneud hynny.

4 EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2017 - DARLITH

Ystyriwyd trefniadau ar gyfer cynnal darlith y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni

Cytunwyd

1. Gofyn i George Jones a John Grisdale os y byddent yn fodlon rhoi y ddarlith ar y cyd am waith Tîm Achub Mynydd Llanberis
2. Gofyn i GW fod yn gyfrifol am drefnu'r ddarlith eleni

5 CYFRIFOLDEBAU AELODAU'R PWYGGOR

Adroddodd SS ei bod yn meddwl fel Cadeirydd newydd y byddai'n fanteisiol pe byddai rhai o aelodau'r Pwyllgor yn gallu gweithredu fel pwynt cyswllt hefo gwahanol gyrff sydd a pherthynas hefo'r Clwb ac y gallent fod yn gyfrifol am ddod ag unrhyw faterion yr hoffai'r cyrff hyn i'r Clwb ystyried i sylw'r Pwyllgor ac adrodd yn ôl iddynt.

Cytunwyd hefo'r awgrym ac y byddai'r canlynol yn gweithredu fel dolenni cyswllt:

Partneriaeth Awyr Agored	RG
Cyngor Mynydda Prydeinig	MT
Ymholiadau gan y Wasg/Cyfyngau	EO (i basio'r cais ymlaen i'r aelod arall yn ol yr angen
Darlith yr Eisteddfod Genedlaethol	GW (fyn rhinwedd ei swydd fel Is-gadeirydd)
Ymgyrch Mynyddoedd Pawb	EH
Cyfyngau Cymdeithasol	Nodwyd y bod yna eitem penodol ar y Cyfyngau Cymdeithasol yn ddiweddarach ar y rhaglen

RH

6 CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cafwyd trafodaeth am rol y Cyfyngau Cymdeithasol

- Roedd yna gytundeb y gellid defnyddio y cyfyngau cymdeithasol i hybu gweithgareddau'r Clwb.
- Bod angen ystyried sut yr oedd delwedd y Clwb yn dod drosodd ar y Cyfyngau Cymdeithasol ac ar y Safle We. Tra roedd lluniau o unigolion ar deithiau o ddiddordeb i weddill yr aelodau, ni fyddent o lawer o ddiddordeb i rhai y tu allan. Bydai cael mwy o luniau o'r mynyddoedd ac ati yn denu sylw.
- Codwyd y cwestiwn os y gellid ystyried cael fforwm gaeedig ar gyfer aelodau'r Clwb lle y gellid gweld lluniau o unigolion ar deithiau ac ati ond hefyd cael fforwm agored cyhoeddus i bawb lle y gellid dangos lluniau o fynyddoedd ac rhai mwy dramatig er mwyn ceisio ennyn diddordeb yn weithgareddau'r Clwb

- Bod angen ystyried atgyfodi safle Trydar y Clwb
- Gellid defnydio Instagram hefyd i hyrwyddo 'r Clwb
- Gyda gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r Clwb byddai angen ystyried sut y gellid sicrhau bod lluniau yn cael eu trosglwyddo i'r gwahanol unigolion sy'n gyfrifol am y gwahanol gyfryngau

Cytunwyd

1. Byddai SS yn cael gair hefo IAG i weld beth fyddai'n bosib hefo ehangu ar ddefnydd y Gweplyfr i hyrwyddo'r Clwb
2. Byddai SS yn edrych i fewn i atgyfodi safel Trydar y Clwb
3. Gofyn i Mari Huws os y gellid agor a datblygu cyfrif Instagram ar gyfer y Clwb_

7 CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB

Adroddodd EO bod y rhaglen am y cyfnod i fyny i Ebrill wedi ei chwblhau a'i dosbarthu bellach. Byddai'n edrych ar baratoi y rhaglen nesaf maes o law a gofynnodd i unrhyw aelod hefo syniadu neu awgrymiadau i gysylltu ag ef.

Byddai cryn weithgareddau tu allan i Gynru yn y rhaglen nesaf gyda wythnos yn Ardal Toridon yn cael ei thredfny gan Elen Huws a Morfudd thoams ag ychydig o ddyddiau yn ardal Church Stretton yn cael ei drefnu gan Gwyn Williams.

Edrych ymlaen i hwyrach ymlaen yn y flwyddyn roedd yn edrych ar y posibilrwydd o drefnu penwythnos yn Ardal y Llynnoedd yn yr Hydref

Bod Partneriaeth Ogwen yn edrych ar drefnu taith i fyny Carnedd Gwenllian ar ddiwrnod Santes Gwenllian ac o bosib byddai ar y cyd hefo'r Clwb

Bod Dylan Roberts yn trefnu taith i griw ifanc o ardal Bangor

Diolchwyd i EO am ei waith yn llunio'r rhaglen

8 RHAGLEN HYFFORDDIANT & DIWRNOD BLASU/TREFNIADAU GLAN-LLYN

Gwersyll yr Urdd, Glan-Llyn

Adroddodd SS ei fod wedi cael trafodaethau hefo Gwidion Thomas o'r Urdd ac roeddynt yn edrych i'r Urdd a'r Clwb drefnu gweithgaredd awyr agored ar y 1af o Fai a fyddai'n ceisio codi proffi y ddau sefydliad

Y bwriad fyddai cael teithiau a fyddai yn canolbwyntio ar deuluoedd i fyny tri prif gopa Cymru ar y diwrnod sef Yr Wyddfa, Cader Idris a Phen y Fan.

Cytunwyd

1. Gofyn i Eo drefnu fod y teithiau perthnasol yn cael eu rhoi ar rhaglen nesa
2. Dylid ceisio cael cynlluniau wrth gefn hefyd rhag ofn y bydd y tywydd gwael ar y diwrnod
3. Byddai SS yn parhau hefo trafodaethau gyda Gwidion Thomas am y diwgyddiad
4. Gofyn i EO drafod hefo Dewi Hughes tefnydd teithiau yn y De am y posibilrwydd o gael taith i fyny Pen y Fan
5. Dylid cysylltu hefyd hefo'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol perthnasol

9	<p><u>OFFER</u></p> <p>Adroddodd MT nad oedd wedi derbyn unrhyw gais i brynu offer.</p>	
10	<p><u>MATERION C.M.P</u></p> <p>Nodwyd fod cyfarfod rhanbarthol y CMPyn y Gogledd i'w gynnal ar nos Iau, 2 Chwefror ym Mangor.</p>	
11	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Cytunwyd y dylid diolch i'r Partneriaeth am eu cymorth gyda helpu nifer o aelodau'r Clwb i ennill cymhwyster Arweinydd Mynydd ym Mhlas y Brenin ddiwedd Hydref.</p>	
12	<p><u>PARTNERIAETH YR WYDDFA</u></p> <p>Adroddodd EH er gwybodaeth am y cyfarfodydd o Bartneriaeth yr Wyddfa yr oedd wedi mynychu yn ddiweddar. Amcan y Bartneriaeth oedd i edrych ar wahaol agweddau o reoli yr Wyddfa drwy ddod a wahanol gyrfi a sefydliadau mewn nifer o feysysdd at ei gilydd a chreu cynllun rheoli ar ei gyfer.</p> <p>Roedd EH wedi mynychu cyfarfodydd or Grwp Ffocws ar weithgareddau awyr agored ac antur.</p> <p>Cytunwyd gofyn i IPR gylchredeg adroddiad o waith y Grwp Ffocws i'r aelodau .</p>	
13	<p><u>AELODAETH Y PWYLLGOR</u></p> <p>Mynegodd EO bryder bod y Pwyllgor wastad yn colli mewnbyn gwerthfawr y cadeirydd blaenorol wrtho iddo/i sefyll i lawr o fod yn aelod o'r Pwyllgor ar ddiwedd ei cyfnod fel Cadeirydd. Credai bod gan yr unigolion yma llawer o brofiad ac y byddai o fantais i'r Pwyllgor pe byddent yn aros ymlaen am ychydig fel aeoldau i rannu eu profiadau ac i gynorthwyo'r Cadeirydd newydd</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Pan fydd y Cadeirydd yn y dyfodol yn sefyll i lawr ar ddiwedd eu cyfnod y dylid eu cyfethol i wasanaethu fel aelod cyffredin o'r Pwyllgor am gyfnod o flwyddyn os ydynt yn fodlon gwneud hynny. 2. Yn sgil y ffaith nad oedd sedd wag ar ar hyn o bryd dylid gofyn i Richard os y byddai'n fodlon mynychu y cyfarfodydd o'r Pwyllgor fel sylwebydd am gyfnod. 	
14	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Mai 2017 yng Nghapel Curig os yn bosib.</p>	